

Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd
Dydd Mercher 19 Mehefin 2019
Pafiliwn Chwaraeon Corwen am 14:00

Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)
Paul Frost PF
Tom Woodall TW
Laura Crawford LC
Kevin Slattery KS
Chris Marshall CM
Duncan Barratt DB
Hugh Crosswood HC
Hilary Davies HD
Heather Fitzgerald HF

Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Warden Mynediad)
Victoria Currie (Cydllynydd Ardal AffCh De)
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Swyddogol)

Cynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad a Hamdden ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)
Howard Sutcliffe (AHNE a Rheolwr Gwasanaeth Ceidwad)
David Shiel (Uwch Swyddog Cefn Gwlad (AHNE))
Huw Rees (Rheolwr Cefn Gwlad a Threftadaeth)

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -

Cyng Martyn Holland, John Buckley, Gwen Butler, Jo Hughes, Kay Culhane, Max Grant, Adrian Walls, Peter Rutherford (arsylwi). Roedd Toni Mayne wedi cynnig ei hymddiswyddiad i'r Fforwm. Ni fyddai'r Cyng Milne yn mynychu mwyach gan y bu ailstrwythuro o fewn CBSC. Byddwn yn croesawu'r Cyng Greg Robbins yn y cyfarfod nesaf.

Cofnodion a Nodiadau'r Cyfarfod Diwethaf

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Rhestrododd HA yr ymddiheuriadau a gafwyd. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Duncan Barratt a Tom Woodall.

Materion yn codi

Roedd y camau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Pwynt gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Y Sefyllfa Bresennol
10.1	HA i ddsbarthu ymateb e-bost gyda nodiadau'r cyfarfod	Cwblhawyd
10.2	Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y rhamp sydd wedi'i rwystro.	Clirio tywod yn digwydd unwaith y mis dros fisoedd yr haf
10.3	HA i ddsbarthu copi digidol o'r ddogfen	Cwblhawyd

Cyflwyno rhodd – Gofynnodd KS a oedd yna ddiweddariad ar hyn. Roedd Sian wedi dyrannu amser a bydd yn parhau i ddatblygu hyn. Dywedodd KS fod Cyngor Sir Powys hefyd yn gweithio tuag at gynllun. Gallai Conwy fod y cyntaf yng Nghymru.

Tywod ar ben morfa – dywedodd TF fod camau wedi eu cymryd, sy'n gwneud bywyd ychydig yn haws yn yr ardal neu ar y llwybr hwnnw. Cadarnhaodd LC ei fod yn well ar hyn o bryd. Ychwanegodd SW fod y llwybr yn cael ei glirio bob mis ar hyn o bryd a gellir rhoi gwybod am unrhyw broblemau drwy Sian.

Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyflwyniad gan Richard Dearing

Richard Dearing (RD) yw Uwch Swyddog Cynllunio Cyfoeth Naturiol Gogledd Ddwyrain Cymru. Gall Nia Williams a leolir ym Mangor fynychu cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol o safbwynt Conwy. Nid oedd Nia yn gallu bod yn bresennol heddiw.

Rhoddodd RD ddiweddariad ar Ddeddf Amgylchedd Cymru ac estynnodd wahoddiad i aelodau Fforwm Mynediad Lleol i fynychu gweithdy, gyda manylion dyddiadau wedi eu hargraffu ar gyfer Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Cymru wedi eu dosbarthu.

Bydd datganiadau ardal yn hwyluso gweithredu polisi Cyfoeth Naturiol ac yn cynnwys beth gall Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ei wneud i gyflawni egwyddorion rheolaeth cynaliadwy o adnoddau naturiol. Byddant yn dwyn ynghyd yr hyn yr ydym yn ei wybod, angen ei wybod a ddim yn ei wybod a bydd yn cyfrannu at saith nod lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd yna saith maes datganiad ardal – ardal CEDLAF yn cynnwys dwy – Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin

Amserlen ar gyfer y broses

Cam 1 – proffiliau ardal a mapio rhanddeiliad – gwanwyn 2019

Cam 2 – deall blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd – haf a gaeaf 2019

Cam 3 – gosod y sylfeini ar gyfer darparu – gwanwyn 2020 (dyma pryd fydd y datganiad ardal 1af yn cael ei gyhoeddi)

Rhoddodd RD amlinelliad o broffil ardal y gogledd ddwyrain a themâu a drafodir, oedd yn cynnwys pobl a lle, mynediad a hamdden, adnoddau naturiol a'n hamgylchedd.

Roedd themâu oedd yn codi ar gyfer y Gogledd Ddwyrain yn cynnwys datblygu cyfleoedd twristiaeth awyr agored a diogelu seilwaith gwyrdd a gwledig.

Cwestiynau i Richard:

Gofynnodd HC sut fyddai hyn yn cael ei ariannu.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ariannu'r broses ar hyn o bryd, ond roeddent yn chwilio am gyllid i gyflawni egwyddorion rheolaeth cynaliadwy o adnoddau naturiol.

Gofynnodd CM oedd yr amgylchedd morol wedi'i gynnwys.

Ydy mae 16 cilomedr wedi'i gynnwys ac mae'r ffin forol/daearol yn bwysig iawn.

Roedd PF wedi edrych ar y wefan ond yn methu dod o hyd i wybodaeth.

Mae yna pdf rhyngweithiol ar hyn o bryd gyda mapiau a gwybodaeth arall, ond mae'n rhy fawr i anfon ar e-bost. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio drwy feddalwedd GIS newydd a ddatblygir. Bydd holl wybodaeth ar gael yn y gweithdai i edrych arni. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru ei wneud ar gael yn gyhoeddus yn y dyfodol.

Nid oedd PF yn glir ynglŷn â lle rydym yn y broses.

Yn y cam proffil ardal ar hyn o bryd. Nid hwn yw'r datganiad terfynol ac nid yw'n rhywbeth y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei osod. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru syniad o themâu sy'n codi ond diben y gweithdai yw ceisio canfod beth yw materion a blaenoriaethau pobl eraill.

Astudiaeth Gwerthuso Ymwelwyr – Cyflwyniad gan David Shiel

Roedd David Shiel (DS) yn adrodd yn ôl i'r Fforwm Mynediad Lleol ar ganlyniadau astudiaeth gwerthuso ymwelwyr diweddar, a gynhaliwyd gan y Sefydliad Economeg Newydd (NEF), oedd yn canolbwyntio ar chwe safle o fewn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth Y Byd Pontcysyllte. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei ddsbarthu i'r Fforwm Mynediad Lleol.

Gwerth Economaidd

Roedd yr adroddiad yn amcangyfrif 1.1 miliwn o ymwelwyr i 6 safle gyda 449 swydd cyfateb i llawn amser yn cael eu cefnogi ar y safleoedd. Mae'r adroddiad yn gwerthuso gwerth economaidd pob safle yn unigol ac yn edrych ar wariant unigol fesul ymwelydd i'r safleoedd. Roedd gan safleoedd yn Nyffryn Dyfrdwy wariant unigol uwch na'r rhai ym Mryniau Clwyd. Credir bod hyn oherwydd bod y mwyafrif ar eu gwyliau ac yn gwario mwy pan maent yn aros.

Gofynnodd HC pam bod gwariant yn uwch i Moel Famau na Loggerheads

Roedd llawer o bobl y siaradwyd â nhw yn gwersylla ac roedd llawer o'r gwario yn yr Wyddgrug ar gyfer tanwydd, bwyd ac ati.

Roedd gwariant yn llai yn Loggerheads, ond roedd y caffi yn gwneud yn dda iawn.

Gofynnodd PF a oedd yr adroddiad yn ymwneud â thwristiaid a/neu drigolion.

Roedd y Panorama yn denu llawer o bobl leol ac roedd llawer o'r gwariant ar panorama a Phontcysyllte yn Llangollen yn hytrach na chymunedau llai.

Lles

Rhagwelir bod gwerth y safleoedd hyn ar gyfer lles yn £8.8 miliwn y flwyddyn. Roeddent yn gwneud cyfraniad i iechyd ar adeg pan mae gordewdra yng Nghymru yn broblem i bob oed ac mae anweithgarwch corfforol yn ffactor mawr sy'n cyfrannu. Roedd NEF wedi edrych ar hyd arhosiad yn yr ardal ac wedi rhoi costau yn erbyn y rhain:

- Effaith ar glefyd cardio fasgwlar - £1.2 miliwn o gostau GIG wedi eu hepgor
- Effaith ar diabetes math 2 £36.8 miliwn o gostau GIG wedi eu hepgor

Roedd hyn yn helpu i gadw pobl allan o'r system iechyd ynghyd â mentrau eraill fel y prosiect Natur er Budd Iechyd a chynllun cerdded iach gan ein tîm.

Effeithiau Cymdeithasol

Roedd tagfeydd traffig a materion gorlenwi yn faterion cyffredin a godwyd yn Loggerheads, Moel Famau a Rhaeadr Y Bedol. Roedd bron 40% o ymwelwyr yn meddwl bod y safleoedd hyn yn waeth nag ardaloedd eraill.

Roedd y rhan fwyaf o gymunedau yn teimlo bod y safleoedd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned heblaw Rhaeadr y Bedol lle mae'r dynamig wedi newid yn eithaf cyflym ac yn ddiweddar.

Effaith amgylcheddol

Roedd sbwriel yn broblem gyffredin a godwyd a chyfrifiadau yn dangos bod 130 tunnell o sbwriel ac 8.2 tunnell o faw cŵn yn cael ei gasglu yn Loggerheads bob blwyddyn a 4.7 tunnell o faw cŵn yn cael ei glirio ym Moel Famau.

Roedd yn costio £17,500 y flwyddyn i glirio sbwriel a baw cŵn o'r safleoedd hyn.

Effaith ar dda byw – roedd 14 o ddefaid wedi eu lladd ar Moel Famau yr ydym yn gwybod amdanynt yn y 3 blynedd ddiwethaf. Mae'n anodd rhoi pris ar hyn gan nad ydym yn gallu cyfrif yr holl golledion fel amser, milfeddyg, erthyliad, colledion yn nes ymlaen ac ati.

Tîm achub mynydd – roedd y galwadau allan ar Moel Famau i fyny 300% o 3 mewn blynyddoedd blaenorol i 9 yn 2017 – 2018.

Costau erydiad £16,000 ar draws y ddau safle (Loggerheads a Moel Famau)

Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod yna fudd mawr, budd ariannol ac iechyd a lles y safleoedd hyn am fuddsoddiad bach iawn a chyllidebau cyfyngedig. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu fydd yn edrych ar hybu gwerth economaidd a chymdeithasol safleoedd yn yr AHNE a bydd yn gweithio drwy Bartneriaethau Rheoli Cyrchfan i hybu'r AHNE.

Mae camau penodol i safle yn cynnwys:

- Tirlunio'r maes parcio yn Llantysilio
- Ymgyrch cŵn ym Moel Famau
- Mynd i'r afael â materion erydu ar glogwyni yn Loggerheads
- Parcio ychwanegol a gwybodaeth cyfeiriannu ym Mhontcysyllte
- Hyrwyddo Rhuthun a Dinbych ym Moel Famau
- Mynd i'r afael â materion erydu ar y Panorama drwy'r prosiect Ein Tirlun Darluniadwy.

Ychwanegodd DS fod swyddogion yn parhau i fynd drwy'r adroddiad a sut i symud ymlaen.

Cwestiynau i David

Gofynnodd TF o'r gwariant £31 miliwn a awgrymwyd, faint sy'n dod i Gyngor Sir Ddinbych?

Roedd incwm o ddau faes parcio yn helpu i dalu cyflog dwy swydd Ceidwad Cefn Gwlad.

Roedd y gwerthoedd yn yr adroddiad yn cyfrif am lawer o wariant eilaidd.

Dyweddodd CM mai un mater oedd parcio ar yr A494 yn Loggerheads, nid y parc gwledig oedd ar fai

Cytunodd DS ei fod yn fater llawer ehangach, oedd angen i briffyrdd CSDd ac asiantaeth cefnffyrdd fynd i'r afael â rhai o'r materion ar y cyd.

Ychwanegodd CM fod pobl oedd yn parcio ar yr ymyl ym Moel Famau yn achosi problemau er mwyn osgoi talu £1.

Rhan o'r broblem hon oedd bod meysydd parcio yn llawn erbyn 11am ar benwythnosau. Un cwestiwn a godwyd oedd a ydym yn gwneud meysydd parcio yn fwy neu'n ceisio eu hanfon i rywle arall? I ble rydym yn eu hanfon? Mae'r safleoedd hyn yn darparu rôl bwysig o fewn iechyd a lles a chael pobl allan i'r awyr agored, felly ydyn ni'n gweithio i wneud y safleoedd hyn yn fwy gwydn i'r nifer o bobl sy'n dymuno ymweld â nhw?

Ychwanegodd DS y byddai'n gweithio ar y cynllun rheoli AHNE newydd yn ystod y flwyddyn nesaf ac yn edrych ar sut i rannu ardaloedd. Angen bod yn ofalus i beidio cael gwared ar lonyddwch ardaloedd tra'n ceisio lledaenu effaith cynyddu nifer ymwelwyr.

Roedd PF yn awgrymu darparu cymhariaeth o werth economaidd y safleoedd yn erbyn cost y gwasanaeth i wneud i bobl werthfawrogi gwerth y gwasanaeth a ddarperir.

Gofynnodd TF oedd yr adroddiad yn dangos unrhyw beth nad oeddem yn ei wybod?
Oedd, roedd ffigyrau gwariant yn syfrdanol. Roeddem eisoes yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd.

Gofynnodd TF oedd y canlyniadau o'n plaid o ran cyllidebau.
Oedd, roedd yn cryfhau'r angen am gyllid.

Ychwanegodd TW bod yna faterion generig tebyg yn gyffredinol a gofynnodd a oedd Conwy wedi gwneud unrhyw beth i ddeall y berthynas, yn arbennig yn y Gogarth.
Sally fyddai'r person gorau i siarad gyda hi am hyn ac efallai y gellir rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd HC pa mor gywir oedd yr arolwg
Roedd yn gipolwg o ymwelwyr â'r safle. Roedd arolygon yn cael eu cynnal yn yr haf a'r hydref i edrych ar agwedd a gwariant. Roedd DS ac NEF yn hapus eu bod wedi siarad gyda digon o bobl. Gwnaed rhai rhagdybiaethau yn seiliedig ar ddata Croeso Cymru a STEAM ond mae'n rhaid gwneud hyn i gyrraedd rhai o'r prif ddangosyddion. Roedd NEF yn uchel eu parch yn y maes gwaith hwn.

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft Cyngor Conwy – Victoria Currie a thrafodaeth rhwng yr Aelodau

Roedd TF yn agor y drafodaeth i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol fel cyfle i roi adborth a gofyn cwestiynau ar y ddogfen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft.

Roedd Victoria Currie (VC) wedi derbyn sylwadau gan Peter Rutherford, Tom Woodall, Paul Frost, Cyfoeth Naturiol Cymru a dau o sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd.

Aeth PF drwy grynodeb o'i farn a dywedodd ei fod yn benderfynol o fod yn negyddol ar ôl y cyfarfod diwethaf ond roedd yn sylweddoli ei bod yn synhwyrol gweithio tuag at weithio mewn ffordd strategol oherwydd ansicrwydd, heb gyfeirio'n bendant at brosiectau. Bydd datblygu cynlluniau darpariaeth blynyddol yn ychwanegu cig at yr asgwrn. Fodd bynnag, roedd y ddogfen yn awgrymu y bydd y prif

ymgyngoriad gyda'r Fforwm hwn, ond nid oedd PF yn meddwl fod gan y Fforwm y wybodaeth leol gywir i ddylanwadu ar y cynlluniau. Dylent gyfrannu yn ddiweddarach nid y lleoliad.

Dywedodd CM fod y cynllun blaenorol yn uchelgeisiol ac roedd yr un newydd yn realistig iawn. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y dylai Conwy fod yn uchelgeisiol wrth osod targedau yn hytrach na gosod targedau cyfforddus, cyflawnadwy. O leiaf gallwch adolygu ac edrych ar ffyrdd eraill o ddarparu os nad ydych yn cyflawni rhywbeth un flwyddyn.

Roedd Hilary Davies (HD) yn codi materion ynglŷn â'r cynllun cyflenwi ac roedd yn credu ei bod yn hanfodol asesu cynnydd. Gofynnodd HD pryd fydd y Fforwm Mynediad Lleol yn gweld y cynlluniau a phryd fydd y Fforwm Mynediad Lleol yn ei adolygu.

Ychwanegodd VC pan fydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy terfynol yn cael ei gyhoeddi bydd y cynllun cyflenwi yn cael ei ddatblygu gyda'r Fforwm Mynediad Lleol. Bydd hyn yn digwydd yn yr hydref i glymu gyda'r cyllidebau ariannol a bydd yn cael ei adolygu bob chwarter.

Gofynnodd HD a fyddai fel y manylwyd fel nifer o fynegbyst?

VC – gallai fod.

Awgrymodd PF adolygu yn y gwanwyn a'r haf i gael cynllun yn barod ar gyfer gwneud cais am arian yn yr hydref. Ychwanegodd y gall rhywfaint o arian CBSC gael ei gadw tan yr hydref/gaeaf, ond i ymgeisio am gyllid allanol byddai Conwy angen meddwl ymhellach ymlaen.

Dywedodd VC y byddai'r cynllun cyntaf yn cynnwys beth gellir ei gyflawni o gyllideb CBSC ac yna byddant yn edrych am gyllid ychwanegol y flwyddyn ddilynol.

Gofynnodd CM am ffyrdd di-ddosbarth

VC – nid oeddent ar y map digidol felly bydd yn rhaid siarad gyda'r adran Briffyrdd.

Gofynnodd HD os oedd y Parc Cenedlaethol wedi'i gynnwys.

Ydy roedd tua 1/3 o Gonwy o fewn y Parc Cenedlaethol.

Roedd TW wedi cyflwyno sylwadau i VC ac roedd yn hapus i drafod. Cytunodd ei bod yn ddogfen strategol ond teimlodd bod angen mwy ynddi a mwy yn y ddogfen gyfan. Angen edrych lle rydym wedi bod, y darlun presennol a lle rydym yn mynd. Dylai dadansoddiad fod yn fwy amlwg yn hytrach nag edrych am atodiad. Teimlwyd y gellir ychwanegu 10-15 nod arall, ond pump yn unig oedd yna ar hyn o bryd.

Ychwanegodd TW yr hoffai fwy o fanylion am ddarpariaeth adnoddau presennol, staffio, blaenoriaethu adnoddau – sut y gwneir hyn. Hoffai weld lefel o uchelgais o'r hyn yr hoffem ei gyflawni nid rhywbeth strategol yn unig, a allai fod yn gyfyngus os bydd y tirlun gwleidyddol a chyllid yn newid.

Roedd TW yn teimlo fod CBSC angen dweud y stori ychydig mwy ac roedd yn cydnabod y bydd y cynlluniau cyflenwi yn rhoi cig ar yr asgwrn, ond roedd yr amcanion angen bod ychydig mwy disgrifiadol. Mae'n gynllun gwella ac mae angen nodi rhai o'r gwelliannau hyn ac ychwanegu atebion arloesol. Lle gall y Fforwm Mynediad Lleol gyfrannu i ddatblygu hyn?

Diolchodd TW i swyddogion CBSC am ddod â'r ddogfen hon i'r Fforwm a chyflwyno'r ddogfen a gofynnodd a oedd unrhyw newyddion ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy CSDd – bydd HA yn mynd â'r cwestiwn yn ôl gan nad oedd Hawliau Tramwy CSDd yn gallu mynychu'r cyfarfod.

Materion eraill:

Gofynnodd Hilary a fyddai'n bosibl postio'r nodiadau iddi.

Pwynt Gweithredu 11.2	HA i anfon e-bost i'r aelodau i ofyn pwy fyddai'n dymuno derbyn copïau papur o nodiadau.
--	--

Dyddiad cyfarfodydd sydd i ddod:

Dydd Mercher 4 Medi 2019

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019

DRAFT